Datganiad Preifatrwydd SNAP Cymru

1. Yn SNAP Cymru rydym ni wedi ymrwymo i ddiogelu a pharchu eich preifatrwydd.

   Er mwyn helpu gyda'ch ymholiad, rydym ni angen cofnodi manylion eich achos. Gall y manylion hyn gynnwys data personol a sensitif.

   Er mwyn cydymffurfio â'r Gyfraith, mae'n rhaid inni ofyn am eich caniatâd.

   Ni fydd SNAP Cymru yn rhannu eich gwybodaeth gydag unigolion y tu allan i SNAP Cymru heb eich caniatâd chi.

   Gallwch chi ofyn am gopi darllenadwy o'ch data. Os yw eich caniatâd yn cael ei dynnu'n ôl, byddwn yn dileu eich gwybodaeth o'n system.

2. Er mwyn cynnal y lefel uchaf o ansawdd drwy ein gwasanaeth, rydym yn ddeiliaid y Marc Ansawdd Arbenigwyr ar gyfer Cyngor ar Addysg. Er mwyn dilysu ansawdd ein cyngor a rheolaeth ein ffeiliau, mae'n rhaid inni ddarparu sampl o ffeiliau ar gyfer Aseswr annibynnol. Byddan nhw'n diogelu eich preifatrwydd.

3. Mae gennych chi hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru os ydych chi'n meddwl bod problem gyda'r ffordd yr ydym ni'n trin eich data.

4. Dysgwch fwy er mwyn gweld mwy o wybodaeth sy'n egluro sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth, ewch i weld ein polisi preifatrwydd yn www.snapcymru.org os gwelwch yn dda.